O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2008 Rhif 1736 (Cy.170)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Addysg (Datgymhwyso Cwricwlwm Cenedlaethol Cymru yng Nghyfnod Allweddol 1) (Cymru) 2008

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau.)

Mae'r Rheoliadau hyn a wneir o dan Ddeddf Addysg 2002 yn darparu ar gyfer datgymhwyso gofynion Cwricwlwm Cenedlaethol Cymru a bennir ar gyfer y cyfnod allweddol cyntaf yn adran 105(1), (2), a (3), a Gorchmynion a wneir o dan adran 108(3) o Ddeddf Addysg 2002 ar gyfer disgyblion mewn ysgolion a gynhelir am y blynyddoedd ysgol 2010 i 2011 a 2011 i 2012.

Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar yr un pryd ag y cyflwynir y cyfnod sylfaen. Cyflwynir y cyfnod sylfaen ar gyfer blwyddyn gyntaf y cyfnod sylfaen ar 1 Awst 2008 i'r disgyblion hynny sy'n 3 i 4 oed, ar gyfer ail flwyddyn y cyfnod sylfaen ar 1 Awst 2009 i'r disgyblion hynny sy'n 4 i 5 oed, ar gyfer trydedd flwyddyn y cyfnod sylfaen ar 1 Awst 2010 i'r disgyblion hynny sy'n 5 i 6 oed ac ar gyfer pedwaredd flwyddyn y cyfnod sylfaen ar 1 Awst 2011 i'r disgyblion hynny sy'n 6 i 7 oed.

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2008 Rhif 1736 (Cy.170)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Addysg (Datgymhwyso Cwricwlwm Cenedlaethol Cymru yng Nghyfnod Allweddol 1) (Cymru) 2008

Gwnaed *1 Gorffennaf 2008*

Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru *3 Gorffennaf 2008*

Yn dod i rym *Yn unol â rheoliad 1(2)*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adrannau 112 a 210 o Ddeddf Addysg 2002(**1**) ac sydd bellach wedi'u breinio ynddynt hwy**(2**), ac wedi gwneud trefniadau y maent yn eu hystyried yn briodol ar gyfer ymgynghori ynghylch y cynigion yn unol ag adran 117 o'r Ddeddf honno, yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Datgymhwyso Cwricwlwm Cenedlaethol Cymru yng Nghyfnod Allweddol 1) (Cymru) 2008.

(2) Daw darpariaethau'r Rheoliadau hyn i rym—

(a) ar 1 Awst 2010 o ran disgyblion yn nhrydedd flwyddyn y cyfnod sylfaen; a

(b) ar 1 Awst 2011 o ran disgyblion ym mhedwaredd flwyddyn y cyfnod sylfaen.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(**1**) 2002 p.32.
(**2**) Cafodd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan yr adrannau hyn eu trosglwyddo i Weinidogion Cymru o dan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).

2. Yn y Rheoliadau hyn—

mae "cyfnod allweddol cyntaf" ("*first key stage*") i'w ddehongli yn unol ag adran 103(1) o Ddeddf 2002;

ystyr "Deddf 2002" ("*the 2002 Act*") yw Deddf Addysg 2002; a

mae cyfeiriadau at y cyfnod sylfaen i'w dehongli'n unol ag adran 102 o Ddeddf 2002.

Datgymhwyso Cwricwlwm Cenedlaethol Cymru yng Nghyfnod Allweddol 1

3. Nid yw gofynion Cwricwlwm Cenedlaethol Cymru ar gyfer y cyfnod allweddol cyntaf fel y'u gosodir yn adran 105(1), (2), a (3) ac yn y gorchmynion a wneir o dan adran 108(3)(**1**) o Ddeddf 2002 i fod yn gymwys o ran disgyblion mewn ysgolion a gynhelir yn ystod y blynyddoedd ysgol 2010 i 2011 a 2011 i 2012.

Jane Hutt

Y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, un o Weinidogion Cymru

1 Gorffennaf 2008

(**1**) O.S. 2000/1098 (Cy.76), O.S. 2000/1099 (Cy.77), O.S. 2000/1100 (Cy.78), O.S. 2000/1101 (Cy.79), O.S. 2000/1153 (Cy.84), O.S. 2000/1154 (Cy.85), O.S. 2000/1155 (Cy.86), O.S. 2000/1156 (Cy.87), O.S. 2000/1157 (Cy.88), O.S. 2000/1158 (Cy.89), O.S. 2000/1159 (Cy.90), O.S. 2002/45 (Cy.4).